



Teitl y cyfarfod: Panel Cyswllt Gorllewin Cymru

**Dyddiad a
lleoliad y
cyfarfod:** 22 Hydref 2014 yng Ngwesty Penrallt, Aberporth

Yn bresennol

ENW	SEFYDLIAD
Hywel Manley CADEIRYDD	Cyfoeth Naturiol Cymru
Alex Harding (ar ran Charlotte Gjerlov)	Cyfoeth Naturiol Cymru
Ceri Jones	Cyfoeth Naturiol Cymru
Dave Johnston	Cyfoeth Naturiol Cymru
Dave Levell (yn bresennol hefyd ar ran Bernard Brown)	Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau
Dafydd Jarrett	Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
Gareth Lloyd	Parc Cenedlaethol Eryri
James Dowling	Llywodraeth Cymru
Jill Howells	Cyfoeth Naturiol Cymru
Jill Brown	Cyfoeth Naturiol Cymru
Mansel Thomas	Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr
Paul Henderson	Dŵr Cymru
Paul Renfro (ar ran Paul Donovan)	Fforwm Arfordir Sir Benfro
Steve Hill	Yr Awdurdod Glo

Cafwyd **ymddiheuriadau** gan Martyn Evans, Jeremy Frost, Paul Donovan, Jean-Francois Dulong, Charlotte Gjerlov, Bernard Brown, Rob Parry, Trevor West, Helen Millband, Martin Bishop.

Crynodeb o'r agenda

- Ymgynghori ynghylch Cynllun Rheoli Basnau Afonydd Gorllewin Cymru, sydd wedi'i ddiweddarau
- Cynnydd o ran y cylch cyntaf, gwaith yn y dalgylch a gwaith cyfathrebu
- Edrych ymlaen

1. Croeso, cofnodion a champau gweithredu

Bu Hywel Manley yn cadeirio'r cyfarfod yn lle Martyn Evans. Adolygodd y panel gofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 5 Mawrth 2014, a chytunodd eu bod yn adlewyrchiad cywir o'r cyfarfod.

Camau gweithredu sy'n parhau ers y cyfarfod hwnnw:

- Cytunodd Dave Johnston i egluro'r sefyllfa ynghylch 'dim dirywiad'. **Cam gweithredu: DJ**
- Gohirio'r drafodaeth ynghylch y dull ecosystemau tan y cyfarfod nesaf. Gofynnodd Dave Levell am eglurhad ynghylch cysondeb ffiniau ar gyfer yr ardaloedd peilot sy'n rhan o'r rhaglen Cynllunio Adnoddau Naturiol. **Cam gweithredu: CJ**
- Dylid rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf am ddsbarthiad pan fydd ar gael. **Cam gweithredu: DJ**

2. Ymgynghori ynghylch Cynllun Rheoli Basnau Afonydd Gorllewin Cymru, sydd wedi'i ddiweddarau

Dechreuodd DJ y sesiwn drwy roi trosolwg o'r dogfennau ymgynghori, gan gynnwys y brif ddogfen, yr atodiad, y crynodebau o'r dalgylchoedd ac Arsyllwi Dyfroedd Cymru. Tynnwyd sylw at y cwestiynau ymgynghori sy'n gysylltiedig â'r newidiadau arfaethedig i ffiniau cyrff dŵr. Yn benodol, bu'r panel yn canolbwyntio ar newidiadau o ran cyrff dŵr arfordirol, ac a ddylai llynnoedd sydd wedi'u dynodi'n Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig gael eu cynnwys yn yr ail gylch. At ei gilydd, nid yw deddfwriaeth Ewropeaidd yn berthnasol i lynnoedd bach ac rydym yn ymgynghori ynghylch a ddylent gael eu dynodi'n Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig ai peidio. Mewn achosion lle ceir gwared â chyrff dŵr, bydd hynny at ddiben adrodd i'r Undeb Ewropeaidd a bydd gwelliannau'n cael eu cynnwys o hyd yn rhan o'r amcanion cyffredinol ar gyfer y dalgylchoedd. Sicrhodd DJ y panel y byddai mesurau'n dal yn berthnasol mewn dyfroedd arfordirol.

Sylwadau/campau gweithredu:

- Mynegwyd pryderon ynghylch y modd y caiff amcanion statudol, megis y rhai sy'n ymwneud ag ardaloedd gwarchoddedig, eu cyflawni.
- Mynegwyd pryderon ynghylch pa mor fforddiadwy yw'r gwaith cyflawni. Trafodir hynny'n fanylach yng nghyfarfod y panel ym mis Mawrth. **Cam gweithredu: CJ**
- Mesurau: Nododd y panel yr angen am becyn o fesurau sy'n egluro pwy sy'n eu cyflawni ac erbyn pryd. Mae rhai mesurau'n gyd-ddibynnol ar draws y sectorau. Awgrymodd y panel y byddai Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cael ei sefydlu i ystyried y mater hwn ynghyd â'r gwaith o flaenoriaethu a datblygu cynllun cyflawni. Gofynnodd HM am wirfoddolwyr o'r grŵp ar gyfer y gwaith hwn, a chynigiodd Paul Henderson, Steve Hill a James Dowling eu henwau. Cytunwyd hefyd y byddai angen cynrychiolydd o faes

coedwigaeth ac y byddai CJ yn trefnu'r cyfarfod cyntaf ar gyfer y gwaith hwn. **Cam gweithredu: CJ**

- Roedd y panel yn siomedig na soniwyd o gwbl am y cynlluniau ar gyfer safleoedd *Natura 2000*, a gofynnwyd pryd y byddai'r Cynlluniau Gwella Blaenoriaethol yn cael eu cyhoeddi. Bydd y Cynlluniau hynny yn egluro'r camau gweithredu sydd wedi'u blaenoriaethu a'u costio ar gyfer pob safle *Natura 2000* yng Nghymru, gyda'r nod o'u hadfer a'u diogelu ar gyfer y dyfodol. Cytunodd Hywel Manley y byddai'n ystyried y sefyllfa bresennol ynghylch cyhoeddi'r Cynlluniau Gwella Blaenoriaethol ac y byddai'n adrodd yn ôl i'r panel drwy e-bost. Nodwyd y pwynt na all partneriaid roi sylwadau ynghylch mesurau'r cynllun a fforddiadwyedd heb y Cynlluniau Gwella Blaenoriaethol. Nodwyd bod hynny'n risg i'r ymgynghoriad ynghylch y Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd. **Cam gweithredu: CJ**
- Gofynnodd y panel pa wybodaeth ynghylch dosbarthiad fyddai'n cael ei defnyddio. Cadarnhaodd DJ mai data 2014 fyddai'n cael ei ddefnyddio. Arweiniodd hynny at rywfaint o drafodaeth ynghylch dirywiad a'r modd yr adroddir ynghylch hynny yn y Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd. Caiff y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith hwn ei ddarparu yng nghyfarfod nesaf y panel. **Cam gweithredu: DJ**

Arsylwi Dyfroedd Cymru

Sylwadau/camau gweithredu:

- Mae angen i ddogfennau crynhoi gael eu diweddarau a'u lanlwytho i'r system o hyd – dylid gofyn pryd y byddant ar gael. **Cam gweithredu: JH**
- Gofynnwyd a fyddai modd cynnwys allwedd ar y mapiau, er mwyn cael eglurder ynghylch beth y mae'r lliwiau'n ei gynrychioli. **Cam gweithredu: JH**
- Awgrymodd y panel y gellid defnyddio Arsylwi Dyfroedd Cymru i rannu mesurau cyd-ddibynnol.
- Prosiectau – dylid egluro pa gamau gwirio sydd ar waith i sicrhau bod y wybodaeth sy'n cael ei lanlwytho'n allanol yn dod o ffynonellau dibynadwy. **Cam gweithredu: JH**
- Dylid anfon adborth ynghylch Arsylwi Dyfroedd Cymru at Lynda Bigland sy'n casglu adborth am Arsylwi Dyfroedd Cymru drwy gydol yr ymgynghoriad. **Cam gweithredu: JB**

Cyfathrebu/hyrwyddo'r ymgynghoriad

Rhoddodd aelodau'r panel adborth ynghylch y materion y dylid canolbwyntio arnynt yn eu barn nhw yn ystod yr ymgynghoriad, a gwybodaeth ynghylch pwy all helpu a'r adnoddau cyfathrebu ychwanegol y mae eu hangen i gefnogi'r ymgynghoriad. Yn ogystal, darparodd y panel restr o ddigwyddiadau yn y dyfodol y gallwn eu defnyddio i hyrwyddo'r ymgynghoriad. Cytunwyd hefyd y byddai pecyn cyfathrebu'n cael ei ddosbarthu i'r grŵp er mwyn helpu i hyrwyddo'r ymgynghoriad.

Sylwadau/camau gweithredu:

- Crynhoi adborth gan Baneli Cyswllt Gorllewin Cymru ac Afon Dyfrdwy a'i ychwanegu at y cynllun cyfathrebu er mwyn llywio'r cynllun ymgysylltu. **Cam gweithredu: CJ**

3. Cynnydd o ran y cylch cyntaf

Trafododd CJ y gwaith oedd yn mynd rhagddo gyda'r rhaglen gyfredol o ymchwiliadau a mesurau. Bydd angen adolygu'r rhaglen er mwyn dangos pa mor bell y mae'r gwaith hwn wedi mynd â ni yn ystod y cylch cyntaf, ac er mwyn helpu i lywio dulliau gweithredu'r ail gylch. Bydd yr adolygiad hwn yn rhan o'r Cynllun Rheoli Basnau Afonydd, sydd wedi'i ddiweddarau, a chaiff cynnydd mewn perthynas â'r gwaith hwn ei drafod yn fanylach yng nghyfarfod y panel ym mis Mawrth. **Cam gweithredu: CJ**

Rhoddodd JH drosolwg o'r Crynodebau o Ddalgylchoedd. Roedd y panel yn gefnogol i'r dull gweithredu a fabwysiadwyd o safbwynt y crynodebau.

4. Edrych ymlaen

Cafodd yr elfen 'edrych ymlaen' ei hystyried a'i diweddarau.

- Dylid pennu dyddiad ar gyfer y gweithgor (Paul Henderson, Steve Hill, James Dowling + cynrychiolydd o faes coedwigaeth) i drafod y gwaith o dracio mesurau a chyflawni.
- Dylai'r Awdurdod Glo ddarparu astudiaeth achos ar gyfer cynllun Craig yr Aber pan fydd wedi'i gwblhau.
- Dylid ystyried sut y gallai Cynlluniau Amaethyddol gael eu targedu'n well er mwyn helpu i gyrraedd targedau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.
- Dylid ystyried cyfleoedd i gynnwys y gwaith o reoli llygredd gwasgaredig mewn Cynlluniau Datblygu Gwledig.
- Y dull ecosystemau a'r ardaloedd peilot ar gyfer ecosystemau – Dyfi, Tawe a'r Rhondda.
- Digwyddiad Panel Cyswllt Cymru ddechrau'r flwyddyn newydd.

5. Unrhyw fater arall

- Y Cynllun Gadael Swydd yn Gynnar o Wirfodd – mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn dymuno lleihau nifer y staff i 1850.
- Mae adolygiad o'r labordy ym Mhen-y-fai yn cael ei gynnal yn rhan o gynllun ad-drefnu i adolygu swyddfeydd Cyfoeth Naturiol Cymru. Cynigiodd Paul Henderson anfon manylion y gwaith a wnaed gan Dŵr Cymru i adleoli labordy.

Cyfarfod nesaf – 11 Mawrth 2015 yn Neuadd y Dref Aberteifi